**Eitem ar yr agenda: 7**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**14 IONAWR 2004**

**RHEOLIADAU AR LWFANSAU I'R AWDURDOD TÂN**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

**1** Cytuno ar ymateb i'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 drafft.

**Cefndir**

**2** Ym mis Mawrth 2003, cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol gynigion ynghylch cynllun lwfansau i aelodau awdurdodau tân, ac yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2003, cytunodd y Panel Gweithredol ar ymateb i gefnogi'r cynigion. Ni chlywyd dim byd arall gan y Cynulliad hyd nes y daeth y rheoliadau drafft allan ar 18 Rhagfyr, a'r dyddiad terfynol ar gyfer sylwadau yw 21 Ionawr. (Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr penderfynodd yr Awdurdod Tân anfon llythyr at y Gweinidog yn gofyn iddi wneud y rheoliadau cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn ariannol hon, gyda'r pŵer i ôl-ddyddio'r taliadau i ddechrau'r flwyddyn, a'r taliadau i fod yn bensiynadwy. Bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon gyda'r sylwadau ar y rheoliadau drafft.)

**3** Mae'r llythyr ymgynghorol a'r rheoliadau drafft yn atodiad 2 a'r ymateb drafft yn atodiad 1.

**Cyngor**

**4** Y materion allweddol yw:

4.1 pryd bydd y cynllun yn dod i rym. Nid yw'r dderbyniol y dylid gohirio hyn tan Ebrill 2004 pan fydd awdurdodau tân cyfunol yn Lloegr wedi cael y pŵer i dalu lwfansau ers Mai 2003. Ni ddylid defnyddio'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi oedi am dros 6 mis wedi'r ymgynghoriad gwreiddiol cyn llunio'r rheoliadau drafft fel rheswm am ohirio rhoi'r lwfansau ar waith yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cafodd y rheoliadau ynghylch lwfansau i gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol eu gwneud yng Ngorffennaf 2002, ac roeddynt yn caniatáu ôl-ddyddio lwfansau i 1 Ebrill 2002, ac does dim rheswm pam na ddylid mabwysiadau dull tebyg ar gyfer awdurdodau tân;

4.2 yr awgrym na ddylai aelodau cabinet neu fwrdd cynghorau fod yn gymwys i dderbyn lwfans am fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd awdurdod tân. Credaf y dylid gwrthwynebu'r cynnig hwn – nad oedd yn y papur ymgynghorol blaenorol - fel mater o egwyddor. Byddai gan unrhyw un sy'n gwneud y ddwy swyddogaeth faich ychwanegol o ran gwaith a hynny'n haeddu cydnabyddiaeth. Byddai

anghysondeb o ran pobl eraill sy'n derbyn lwfansau am gyfrifoldebau arbennig gan gynghorau, pryd y byddai eu lwfansau efallai'n debyg i'r rhai mae aelodau cabinetau neu fyrddau yn eu derbyn. Ar ben hynny, does dim gofyniad yn y cynllun lwfansau ar gyfer cynghorau nac yn unlle arall i aelodau cabinetau neu fyrddau fod yn swyddogaeth llawn amser. (Gellid ychwanegu bod y rheoliadau'n rhagdybio bod holl aelodau cabinetau neu fyrddau yn derbyn lwfansau am gyfrifoldebau arbennig, pryd nad yw hynny'n ofyniad yn y rheoliadau ynghylch lwfansau ar gyfer cynghorau.)

4.3 y dylai'r lwfansau fod yn bensiynadwy. Fel y mae'r llythyr ymgynghorol yn ei nodi, byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac nid yw hyn o fewn gallu'r Cynulliad. Mae gan yr awdurdod safbwynt pendant o ran polisi ar y mater hwn.

**5** Dan reoliad 13(2), byddai'r lwfans milltiroedd uchaf posib yn cael ei gyfyngu i'r lwfans cyfatebol sy'n cael ei dalu i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r rheoliadau ar lwfansau sy'n cael eu talu gan gynghorau yn caniatáu i'r cynghorau barhau i dalu cyfraddau uwch os oeddynt yn bod cyn 2002. Er bod y rheoliad hwn efallai'n golygu y bydd y lwfansau milltiroedd sy'n cael eu talu i aelodau yn gostwng ychydig mewn rhai achosion, nid wyf yn credu y dylai'r Panel wrthwynebu. Yn gyntaf, byddai'n sicrhau bod holl aelodau'r awdurdod tân yn cael eu trin yn gyfartal (ar hyn o bryd, gall cynghorau dalu cyfraddau gwahanol o ran lwfans milltiroedd). Yn ail, oherwydd bod lwfans sylfaenol ar gyfer holl aelodau awdurdodau tân yn cael ei gyflwyno, bydd yr holl aelodau'n cael mwy o arian na nawr beth bynnag.

**Argymhelliad**

**6** Gwahoddir y Panel Gweithredol i drafod y rheoliadau drafft ac i gytuno ar yr ymateb drafft sydd yn atodiad 1, yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau mae'n dymuno eu gwneud.

**Atodiad 1**
*gan mai dogfen Saesneg yw'r ddogfen ddrafft, mae'r dyfyniadau a'r awgrymiadau'n cadw at iaith y ddogfen

**DRAFFT**

**RHEOLIADAU AR LWFANSAU I'R AWDURDOD TÂN**

1 Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr bu Panel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn trafod y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 drafft a ddaeth allan ar 18 Rhagfyr.

2 Mae egwyddor y rheoliadau'n parhau i gael cefnogaeth gadarn. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn pryderu ynghylch 3 mater pwysig.

**Pryd mae'n dechrau**

3 Roedd y papur ymgynghorol a ddaeth allan ym Mawrth 2003 yn cynnig y dylid llunio'r rheoliadau er mwyn caniatáu i awdurdodau tân fabwysiadu cynlluniau ar gyfer 2003-04, ac ôl-ddyddio'r lwfansau i 1 Ebrill 2003. Roedd yr awdurdod yn rhoi cefnogaeth gadarn i'r awgrym hwnnw yn ei ymateb ar 1 Mai. Ni ddylai'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi oedi am dros 6 mis wrth lunio'r rheoliadau drafft ers dechrau'r ymgynghoriad blaenorol, gael ei ddefnyddio fel rheswm ar gyfer gohirio rhoi'r lwfansau ar waith yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cafodd y rheoliadau ynghylch lwfansau i gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol eu gwneud yng Ngorffennaf 2002, ac roeddynt yn caniatáu ôl-ddyddio lwfansau i 1 Ebrill 2002, a does dim rheswm pam na ddylid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer awdurdodau tân. Nid yw'n dderbyniol y dylai awdurdodau tân yng Nghymru orfod disgwyl tan Ebrill 2004 efallai, pan fo awdurdodau tân cyfunol yn Lloegr wedi cael y pŵer i dalu lwfansau ers Mai 2003.

4 Felly, mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn annog yn gryf y dylid gwneud y rheoliadau cyn gynted ag y bo modd cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol; ac y dylid hepgor y diffiniad o "*initial period*" a rhoi gofyniad yn ei le bod y cynllun i'w fabwysiadu "*in respect of the current year and subsequent years*" fel sydd yn rheoliad 5(1) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Bwrdeistrefi Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 Rhif 1895 (Rheoliadau 2002).

**Lwfansau i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd**

5 Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r cynnig i roi lwfansau am gyfrifoldeb arbennig i'r rhai sy'n dal y swyddi hyn. Fodd bynnag, mae'n gwrthwynebu'n gryf reoliad 8(2) sy'n ceisio atal aelodau cabinet neu fyrddau cynghorau rhag derbyn lwfans fel cadeirydd neu is-gadeirydd awdurdod tân. Nid oedd y cynnig hwn yn y papur ymgynghorol blaenorol, a dylid ei hepgor.

6 Byddai gan unrhyw un sy'n aelod o cabinet neu fwrdd, ac yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd awdurdod tân faich ychwanegol o ran gwaith a hynny'n haeddu cydnabyddiaeth. Does dim gofyniad yn y cynllun lwfansau ar gyfer cynghorau

neu unlle arall bod eu swyddogaeth fel aelodau cabinet neu fyrddau yn un llawn amser.  Ni ddylai'r rheoliadau geisio gwahaniaethu yn erbyn aelodau cabinetau neu fyrddau trwy beidio â chynnig cydnabyddiaeth ariannol iddynt os ydynt hefyd yn dal uwch swydd o fewn awdurdod tân.  Caiff hyn ei ddangos yn amlwg yn y ffaith y byddent yn cael eu trin yn anghyson o'i gymharu â phobl eraill sy'n derbyn lwfansau am gyfrifoldebau arbennig gan gynghorau, lle y byddai eu lwfansau efallai'n debyg i'r hyn mae aelodau cabinetau neu fyrddau'n eu derbyn. (Ar ben hynny, mae'r rheoliadau'n rhagdybio bod holl aelodau cabinetau neu fyrddau yn derbyn lwfansau am gyfrifoldebau arbennig, pryd nad yw hynny'n ofyniad yn y rheoliadau ynghylch lwfansau ar gyfer cynghorau.)

**Pensiynau**

7 Fel y gwnaed yn glir yn ei ymateb ar 1 Mai, mae'r Awdurdod yn credu y dylai'r lwfansau sylfaenol a'r rhai am gyfrifoldebau arbennig sy'n cael eu talu i aelodau awdurdodau tân fod yn bensiynadwy.  Felly, mae'n galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol i ganiatáu hyn cyn gynted ag y bo modd.

**Pwyntiau drafftio manwl**

Rheoliad 2, y diffiniad o "*fire authority allowance*". Mae'r diffiniad fel petai yn gofyn am y geiriau "*by a fire authority*" ar ôl "*payable*". Mae pwynt tebyg yn codi ar y diffiniadau o lwfansau cadeirydd ac is-gadeirydd.

Rheoliad 2, y diffiniad o "*vice-chairperson*". Dylai "*chairperson*" yn yr 2il linell fod yn "*vice-chairperson*".

Rheoliad 5(1)  Gweler y sylw uchod ynghylch newid "*current year*" am "*initial period*". Yna, gellir hepgor y diffiniad o "*initial period*" yn rheoliad 2 ac unrhyw gyfeiriad arall ato.

Rheoliad 12(2)(b)  mae "*dependant*" yn yr 2il linell wedi ei gamsillafu. Yn y llinell olaf ond un, mae angen collnod yn "*that member's duties*".

Rheoliad 14(2)  Nid yw'r geiriau ar y llinellau "*from a fire authority or any other person*" yn ymddangos yn rheoliad 16(1) o Reoliadau 2002 ac mae'n ymddangos nad oes mo'u hangen yma.  Os cedwir hwy, yr awgrym yw y dylai "*a*" fod yn "*the*" – petai aelod yn ceisio hawlio ddwywaith am lwfans, gan ei awdurdod tân ef neu hi a chan awdurdod tân arall, byddai'r geiriau "*or any other person*" yn cynnwys yr awdurdod tân arall.

Rheoliad 16(2)   Mae Rheoliad 19(2) o Reoliadau 2002 yn gorfodi cynghorau i gyhoeddi gwybodaeth hefyd ar lwfansau gofal.  Does dim rheswm pam na ddylai gorfodaeth debyg fod ar gyfer awdurdodau tân.